



## **Cynllun Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy**

**Ardal Cyffordd Llandudno**

# **Asesiad Effaith Cludiant**

Mehefin 2011

## Cynnwys

	<b>Tudalen</b>
<b>1 Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
1.1 Polisiâu sylfaenol	2
<b>2 Proffil Cludiant</b>	<b>3</b>
2.1 Proffil Ardal Conwy	3
2.2 Proffil Cludiant Ysgol Conwy	4
2.3 Proffil Ardal Cyffordd Llandudno	5
<b>3 Proffil Ysgolion</b>	<b>6</b>
3.1 Data Dalgylch	6
3.2 Effaith ar Amseroedd Teithio	9
3.3 Effaith ar Gostau Teithio	10
3.4 Llwybrau Diogel yn y Gymuned	10
<b>4 Dewisiadau Awdurdod Lleol ar gyfer Newid Strwythurol Asesiad Effaith Cludiant</b>	<b>11</b>
<b>5 Casgliadau ac Argymhellion</b>	<b>12</b>
<b>Atodiad</b>	<b>13</b>

# 1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi bod yn cynnal adolygiad manwl o'i ysgolion cynradd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Canlyniad hyn oedd cynhoeddi '*Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy*' a'r '*Cynllun Gweithredu*' cysylltiedig yn Hydref 2010, ar ôl ei mabwysiadu gan y Cabinet.

Cytunodd y Cabinet hefyd i:

- i) Ymgynghori ag ardaloedd yn fanwl (asesiad effaith llawn) ar y dewisiadau yn y Cynllun Gweithredu, a
- ii) Chynnal cyfarfodydd rhanddeiliaid gyda'r ardaloedd hynny a nodwyd ar gyfer '*adolygiad mewn dwy flynedd*'.

Bydd gwybodaeth allweddol, gan gynnwys asesiadau effaith ar iaith, cydraddoldeb, cludiant, ar yr ardal ac adeiladau addas i'r pwrpas yn cael eu gwneud er mwyn cyfeirio gwerthusiad dewis.

Bydd cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol yn cael eu cynnal gyda phob ysgol o fewn ardal adolygiad dechreuol er mwyn cyflwyno'n fanylach y dewisiadau a ystyriwyd ar gyfer pob ardal a chanlyniad y gwerthusiad dewis.

**Bydd y ddogfen hon yn ystyried effaith y dewisiadau arfaethedig ar gludiant yn Ardal Cyffordd Llandudno.**

## 1.1 Polisiau Sylfaenol

### Cludiant

Bydd y rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn cefnogi polisi'r Awdurdod o ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion dan 11 oed, sy'n byw dros ddwy filltir o'u hysgol briodol agosaf.

Darperir cludiant am ddim hefyd i'r disgyblion hynny sy'n cyfarfod meini prawf ychwanegol restrwyd yn y Polisi Cludiant, sy'n cynnwys: rhesymau meddygol, anghenion a nodwyd o fewn Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig; llwybrau peryglus.

Mae'r polisi llawn ar gael ar ein gwefan [www.conwy.gov.uk](http://www.conwy.gov.uk), yn uniongyrchol gan Wasanaethau Addysg CBS Conwy, neu unrhyw ysgol yn y sir.

I gael mwy o wybodaeth am gludiant cysylltwch â Swyddog Cludiant Addysg ar 01492 575592/575595 sy'n gyfrifol am asesu hawl i gludiant, neu Swyddog Cludiant Priffrdd ar 01492 575413 sy'n gyfrifol am drefniadau cludiant.

### Derbyniadau

Bydd y rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn cefnogi polisi'r Awdurdod o ganiatáu i rieni a disgyblion fynegi eu dymuniad ynghylch eu derbyn i ysgol o'u dewis.

Mae trefniadau derbyn i ysgol naill ai'n gyfrifoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (ysgolion cymunedol neu reoledig gwirfoddol) neu gyrff llywodraethol (ysgolion sylfaen neu gymorthedig gwirfoddol).

Mae polisi Derbyniadau Conwy ar gael yn '*Nogfen Wybodaeth Ysgolion a Gwasanaeth Addysg*'. Copïau ar gael ar ein gwefan [www.conwy.gov.uk/addysg](http://www.conwy.gov.uk/addysg), neu'n uniongyrchol

gan Wasanaethau Addysg CBS Conwy.

Cysylltwch â Gwasanaethau Addysg ar 01492 575011 pe bai gennych ymholiadau ynghylch y Polisi Derbyniadau.

## Ysgolion Lleol (Dalgylchoedd)

Bydd y rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn cefnogi polisi'r Awdurdod o bennu ysgolion lleol ar gyfer ardaloedd. Mae gan bob ysgol leol 'ddalgylch' wedi'i ddiffinio. Mae dalgylchoedd (gan amlaf) yn seiliedig ar ffiniau wardiau cymunedol a ddarparwyd gan y Comisiwn Ffiniau. Mae dalgylchoedd yn cael eu mapio ac mae angen eu hadolygu yn achlysurol.

Mewn ardaloedd gwledig, bydd dalgylch yn cynnwys sawl milltir sgwâr a gall gynnwys un neu fwy o bentrefi a'u hardaloedd amgylchynol. Mewn ardaloedd trefol, gyda dwy neu fwy o ysgolion mewn tref, bydd y dalgylchoedd yn gasgliad o strydoedd.

## 2. Proffil Cludiant

### 2.1 Proffil Ardal Conwy<sup>1</sup>

- Mae Conwy yn ganolbwynt cludiant strategol bwysig
- Mae dibynadwyedd ar geir yn uchel
- Mae'r defnydd o gludiant cyhoeddus ar gyfer teithio i'r gwaith yn isel
- Mae llawer mwy o bobl yn teithio o'r Fwrdeistref Sirol i fynd i'r gwaith na sy'n teithio i mewn i'r ardal

Mae Bwrdeistref Sirol Conwy yn bwysig fel canolbwynt cysylltiadau cludiant lleol a rhanbarthol mawr - y prif ffyrdd strategol yw traffordd yr A55, cefnffordd yr A470 a llinell Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru. Cefnogir y ffyrdd prifwythiennol hyn gan ffyrdd strategol bwysig eraill megis cefnffyrdd yr A5, A548, A547, A546, A544, A4086 a llinell reilffordd Dyffryn Conwy.

Tabl 1: Modd o deithio i'r gwaith a pherchnogaeth ceir

	Conwy		Wales		England and Wales	
Work mainly at or from home	5,600	12.8%	115,300	9.7%	2,170,550	9.2%
Public transport	2,200	5.1%	77,650	6.6%	3,422,400	14.5%
Car	29,600	67.6%	832,900	70.2%	14,527,750	61.5%
Motorcycle or moped	300	0.7%	8,900	0.7%	258,350	1.1%
Taxi or minicab	200	0.5%	6,00	0.5%	122,500	0.5%
Bicycle	750	1.7%	16,400	1.4%	651,000	2.8%
On foot	4,750	10.8%	122,750	10.3%	2,364,650	10.0%
Households with no car	11,600	24.2%	313,800	26.0%	5,802,200	26.8%
Persons per car	2.03		2.19		2.46	

Fynhonnell: Cyfrifiad 2001 (tabl KS015)

Mae'r gyfran uchel o breswylwyr Conwy sy'n gweithio yn y cartref yn rhannol oherwydd natur wledig nifer o ardaloedd y Fwrdeistref Sirol. Mae gan wardiau mwyaf deheuol Uwch Conwy, Uwchaled a Betws-y-Coed gyfraddau gweithio yn y cartref o dros 25%, mwy na dwywaith cyfradd y Fwrdeistref Sirol gyfan.

Mae dibyniaeth ar geir i deithio i'r gwaith yn llawer uwch na ffigwr Lloegr a Chymru, er ychydig yn well na Chymru gyfan. Eto, natur wledig yr ardal a diffyg mynediad at ddulliau

<sup>1</sup> Proffil ardal ar gyfer Conwy (Hyd 2010)

eraill o gludiant yw'r achos. Mae cludiant cyhoeddus yn rhoi cyfrif am ffigwr isel iawn o 5% o deithiau i'r gwaith.


Mae perchnogaeth ceir yng Nghonwy rhywfaint yn uwch na chyfartaledd Cymru a Lloegr a Chymru, gyda dim ond 24% o gartrefi heb gar. Mewn ardaloedd gwledig, ble yn aml mae mynediad cyfyngedig iawn at gludiant cyhoeddus, mae perchnogaeth ceir yn uwch eto - yn Eglwysbach, dim ond 6% o gartrefi heb gar neu fan yn ôl Cyfrifiad 2001. Mae lefelau perchnogaeth ceir ar ei isaf mewn rhannau o Landudno a Bae Colwyn, ardaloedd sydd hefyd yn rai o'r mwyaf difreintiedig yng Nghonwy yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

## 2.2 Proffil Cludiant Ysgol Conwy


Er 1 Chwefror 2011, mae fîm ar y cyd sydd wedi eu lleoli yn Sir Ddinbych yn rheoli cludiant ysgol Conwy. Yn Ionawr 2011, roedd Conwy yn darparu cludiant ysgol i 4,057 o ddisgyblion (436 ohonynt yn ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol), 25% o'r boblogaeth ysgol gyfan (*prif ffrwd ac addysg amgen*). O'r rhai yn cael cludiant, roedd 84% yn cael cludiant am ddim, gyda 5% yn talu a'r 11% arall i gefnogi ADY.

Ym mlwyddyn ariannol 2010/11, am gludiant ysgol bu i Gonwy dalu £1,413k am y cynradd, £611k am yr uwchradd a £1,019k am y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Tra bod costau AAA Conwy yn ymddangos yn dda mewn cymhariaeth yn genedlaethol ac o fewn y DU, mae ei gostau prif ffrwd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Siart 1: Cost prif ffrwd cenedlaethol fesul disgybl



Siart 2: Cost ADY cenedlaethol fesul disgybl



## 2.3 Proffil Ardal Cyffordd Llandudno

Mae anheddiad Cyffordd Llandudno wedi ei gynnwys yn bennaf o fewn wardiau Marl a Phensarn, ac ar ei ffin mae ward Deganwy ar hyd Ffordd Pentwyn. Poblogaeth y ddwy ward yw 6350<sup>2</sup>. Mae hyn yn cynnwys cyfran ychydig yn uwch o bobl ifanc hyd 15 oed na chyfartaledd cymedr ar gyfer sir Gonwy, a chyfran is o bobl o oed pensiwn.

Mae dwy ysgol gynradd yn yr ardal, sef Ysgol Nant y Coed ac Ysgol Maelgwn. Mae dalgylch Ysgol Nant y Coed yn fras yn dilyn terfyn ward Pensarn ond hefyd yn ymestyn i Marl. Mae gan Ysgol Maelgwn ddau ddalgylch amlwg sy'n gwasanaethu ffrydiau Cymraeg a Saesneg, gyda'r dalgylch cyfrwng Saesneg yn cynnwys llawer o ward Marl a dalgylch cyfrwng y Gymraeg yn cynnwys yr ardal hon ac ardal estynedig y tu hwnt. Poblogaeth dalgylch Ysgol Nant y Coed yw 3024 gyda 3352 o dai o fewn milltir i'r ysgol. Poblogaeth dalgylch ffrwd cyfrwng Saesneg Ysgol Maelgwn yw 2738 gyda 3835 o dai o fewn milltir i'r ysgol.

Mae Cynllun Datblygu presennol Conwy (2007-2022) yn dangos y bydd safleoedd tai yn cael eu datblygu yn nalgylch Cyffordd Llandudno a Maelgwn ar gyfer 241 o dai pellach a 200 o dai eraill yn nalgylch Nant y Coed. Mae hyn yn cynnwys dyraniadau tai arfaethedig newydd a safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio presennol. Mae'n bosibl y bydd 40 disgybl ychwanegol o ganlyniad i'r tai ychwanegol hyn yn nalgylch Maelgwn a'r posibilrwydd o 30 disgybl o ganlyniad i'r tai newydd yn nalgylch Nant y Coed. Mae datblygiadau preswyl mawr wedi eu cynllunio erbyn 2022 yn safleoedd Esgyryn a'r clwb cymdeithasol.<sup>3</sup>

Yn 2001, roedd ychydig dros 70% (1,121) o Ward Marl, ac ychydig yn is na 70% (846) o Ward Pensarn, yn teithio i'r gwaith mewn car<sup>4</sup>. Roedd 10.2% o breswylwyr ward Marl a 7.4% yn ward Pensarn yn gweithio o'r cartref. Yn Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed


<sup>2</sup> 2001 Ystadegau Allweddol Cyfrifiad, Swyddfa Ystadegau Gwladol

<sup>3</sup> Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007-2022 (argraffiad diwygiedig 2011) Polisi strategol HOU/1 – Cwrdd â'r angen am dai

<sup>4</sup> 2001 Ystadegau Allweddol Cyfrifiad, Swyddfa Ystadegau Gwladol

yn Chwefror 2011, roedd llai na 5 disgybl yn cael cludiant am ddim (ac eithrio disgyblion yn cael cludiant am ddim oherwydd eu hanghenion dysgu ychwanegol), am gost o £15 y diwrnod i'r Awdurdod.

Map 1: Wardiau Marl a Phensarn gydag Ysgolion Cyffordd Llandudno



### 3 Proffil Ysgolion

#### 3.1 Data Dalgylch


##### Ysgol Maelgwn

Mae Ysgol Maelgwn yn ysgol gynradd sirol i blant rhwng 3 a 11 mlwydd oed. Mae wedi ei lleoli ar Stryd Broad, Cyffordd Llandudno ac fe'i sefydlwyd yn 1907.

Yn Ionawr 2011, roedd 214 o ddisgyblion (yn cynnwys Meithrin) yn mynychu Ysgol Maelgwn. Gan fod gan Maelgwn ffrwd Gymraeg sydd â dalgylch sy'n fwy na dalgylch lleol yr ysgol, ac er mwyn rhoi darlun cywir o nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Maelgwn fel eu hysgol dalgylch lleol, bydd yr agweddau canlynol ar y proffil ysgol hwn yn ystyried dim ond y rhai sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg.


O'r 214 o ddisgyblion, roedd 94 yn y cohort Saesneg. Wrth i ni gymharu cyfeiriadau'r rhain yn erbyn y dalgylch lleol ar gyfer Ysgol Maelgwn, dangosodd fod 43% o'r disgyblion hyn yn mynychu o du allan i ddalgylch ysgol Maelgwn.

Map 2: Dalgylch Ysgol Maelgwn






Siart 3: Proffil 1 Dalgylch Ysgol Maelgwn




Mae mwyafrif mawr o'r disgyblion sy'n mynychu o du allan i ddalgylch ysgol Maelgwn, yn byw yn nalgylch Ysgol Nant y Coed. Roedd gweddill y disgyblion yn mynychu o ddalgylchoedd ledled y sir (gweler Siart 4 isod).

I'r gwrthwyneb, roedd 74% o'r disgyblion oedd yn byw yn nalgylch Ysgol Maelgwn ddim yn dewis eu hysgol leol, 66% am resymau anhysbys (nid ar sail ffydd neu gyfrwng Cymraeg). Roedd y mwyafrif yn hytrach wedi eu cofrestru yn Ysgol Deganwy (dros 50 o ddisgyblion) ac Ysgol Nant y Coed (dros 20 o ddisgyblion), gydag eraill yn dewis ysgolion ledled y sir, cyn belled i lawr ag Ysgol Tal y Bont (gweler Siart 5 isod).

Siart 4: Proffil 2 Dalgylch Ysgol Maelgwn



Siart 5: Proffil 3 Dalgylch Ysgol Maelgwn






## Ysgol Nant y Coed

Adeiladwyd yn 1971, mae Ysgol Nant y Coed yn ysgol gynradd sirol i blant rhwng 3 a 11 oed.


Yn Ionawr 2011 roedd 177 (yn cynnwys Meithrin) o ddisgyblion yn mynychu Ysgol Nant y Coed.

Wrth i ni gymharu cyfeiriadau'r disgyblion hyn yn erbyn y dalgylch lleol ar gyfer Ysgol Nant y Coed, dangosodd fod 22% o'r disgyblion hyn yn mynychu o du allan i ddalgylch Ysgol Nant y Coed.

Map 3: Dalgylch Ysgol Nant y Coed




Siart 6: Proffil 1 Dalgylch Ysgol Nant y Coed




Mae mwyafrif mawr o'r disgyblion sy'n mynychu o du allan i ddalgylch ysgol Nant y Coed, yn byw yn nalgylch Ysgol Maelgwn. Roedd gweddill y disgyblion yn mynychu o ddalgylchoedd ar draws y sir (*gweler Siart 7 isod*)

I'r gwrthwyneb, roedd 47% o ddisgyblion oedd yn byw yn nalgylch Ysgol Nant y Coed yn peidio â dewis eu hysgol leol, 30% am resymau anhysbys (*nid ar sail ffydd neu gyfrwng Cymraeg*). Roedd oddeutu hanner yn hytrach wedi eu cofrestru yn Ysgol Maelgwn (dros 23 o ddisgyblion), gydag eraill yn dewis ysgolion ledled y sir, cyn belled i lawr ag Ysgol Tal y Bont (*gweler Siart 8 isod*)

Siart 7: Proffil 2 Dalgylch Ysgol Nant y Coed



Siart 8: Proffil 3 Dalgylch Ysgol Nant y Coed



### 3.2 Effaith ar Amser Teithio

Mae Cynigion Trefniadaeth Ysgolion LICC (Cylchlythyr 23/02) yn nodi na ddylai'r amser teithio i blant cynradd fod yn fwy na 45 munud un ffordd. Cyfeiria hyn at 'amser gyrru' ac yn eithrio cerdded neu feicio.

Dewisiadau 1 (a arweinir gan y gyrwyr) a 2 (a ddymunir gan yr ardal), yn 'Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd – Cynllun Gweithredu', yw cau Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed ac adeiladu ysgol newydd ar safle newydd, gyda'r safleoedd posib yn Esgyryn ac Albini House.

Byddai Dewis 3 – cadw'r ysgolion presennol (dim newid) a Dewis 4 – ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli, yn cadw'r safleoedd ysgol presennol.

I asesu unrhyw effaith y dewisiadau ar amseroedd teithio i ddisgyblion, mae'r Awdurdod wedi cynnal ymarfer GIS i ganfod y gwahaniaeth yn yr amser teithio o:

- Man pellach yn nalgylch Ysgol Maelgwn i safle Ysgol Maelgwn;
- Man pellaf yn nalgylch Ysgol Nant y Coed i safle Ysgol Nant y Coed;

- Man pellaf dalgylchoedd Maelgwn a Nant y Coed wedi eu cyfuno i safle Esgyryn; a
- Man pellaf dalgylchoedd Maelgwn a Nant y Coed wedi eu cyfuno i safle Albini House.

Fel y dengys yn y tabl isod, byddai'r effaith ar amseroedd teithio i ddisgyblion yn ddibwys, gydag amrywiad o ddim mwy na 2 funud ar draws y dewisiadau.

Tabl 2: Effaith ar Amseroedd Teithio

Safle	Cod post y safle	Dalgylch	Man pellaf	Pellter GIS (milltiroedd)	Amser teithio (munudau)
Ysgol Maelgwn	LL31 9HG	Ysgol Maelgwn	LL30 1RP	1.54	5
Ysgol Nant y Coed	LL31 9EU	Ysgol Nant y Coed	LL31 9JF	1.41	5
Safle Esgyryn	LL31 9AT	Cyfunol	LL30 1RP	1.61	4
Safle Albini House	LL31 9LG	Cyfunol	LL31 9JF	1.90	7

Gan ystyried y gallai disgyblion sy'n mynychu Ysgol Maelgwn yn bresennol gerdded i'r ysgol, mae'n rhesymol disgwyl pe byddai'r ysgol yn symud i safle Esgyryn y gallai'r amser cerdded gynyddu oddeutu 20 munud un ffordd (Victoria Drive i Esgyryn), gan olygu disgyblion yn croesi pum ffordd brysur. Mae'r effaith hwn yn sylweddol llai i safle Albini House gyda chynnydd o lai na phum munud a dwy ffordd brysur i'w croesi. Fodd bynnag, mae dros 60 o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Maelgwn yn bresennol o ddalgylch Nant y Coed ac felly byddai'r disgyblion hyn yn agosach i'r ysgol.

### 3.3 Effaith ar Gostau Cludiant

Bu i'r ymarfer yn 3.2 ddangos pan rydym yn cyfuno'r ddau ddalgylch ysgol i greu un ysgol newydd (Dewisiadau 1 a 2), nid yw'r pellter o'r man pellaf i un o'r safleoedd newydd arfaethedig yn fwy na dwy filltir.

Felly, gan gymryd y dystiolaeth yn 3.2 i ystyriaeth, ac yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd pob disgybl sy'n mynychu ysgolion yn bresennol mewn ardal yn mynychu'r ysgol newydd (ac eithrio disgyblion sy'n cael cludiant oherwydd angen dysgu ychwanegol), rhagwelir *na fydd* unrhyw gostau cludiant ychwanegol i'w hystyried os symudwn safle'r ysgol.

### 3.4 Llwybrau Diogel yn y Gymuned

Mae nifer o gynlluniau Llwybrau Diogel yn y Gymuned wedi eu cynnal yng Nghyffordd Llandudno ac yn cefnogi cyfleusterau cymunedol a'r ysgolion sy'n bodoli. O ran y dewisidau ar gyfer ysgolion a gyfunir, mae'r isadeiledd sy'n bodoli a'r gwaith a wnaed yn flaenorol trwy'r Cynllun Llwybrau Diogel yn y Gymuned yn cefnogi'r ddau safle.

O ran isadeiledd ffyrdd a llwybrau troed yn agos iawn at safle newydd yna bydd hyn yn ffurfio rhan o brosiect ar gyfer ysgol newydd arfaethedig. Bydd unrhyw broblemau isadeiledd yn y gymuned ehangach yn cael eu hystyried mewn ymgynghoriad â Gwasanaeth Priffyrdd ac Isadeiledd Conwy.

#### 4. Dewisiadau Awdurdod Lleol ar gyfer Newid Strwythurol Asesiad Effaith Cludiant

Ardal	Ysgolion	Band Ymgynghori	Dewis sy'n cael ei arwain gan y gyrwyr (1)	Dewis a ddymunir gan yr ardaloedd (2)	Dewisiadau amgen	
					Dewis (3)	Dewis (4)
<b>Ardal Cyffordd Llandudno</b>	Maelgwn Nant y Coed	A	Ysgol ardal ar un safle (newydd). Un ai <i>Esgyryn</i> neu <i>Albini House</i>	Ysgol ardal ar un safle (newydd). Un ai <i>Esgyryn</i> neu <i>Albini House</i>	Cadw'r ysgolion presennol	Ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli

5 – Cytuno'n Gryf / Gwelliant

4 – Cytuno / Rhywfaint o welliant

3 – Ddim yn cytuno nac anghytuno / Dim newid

2 – Anghytuno / Rhywfaint yn waeth

1 – Anghytuno'n gryf / Gwaeth

Mesur	Dewisiadau 1 a 2		Dewis 3	Dewis 4
	Esgyryn	Albini House		
<b>Effaith ar amseroedd teithio</b>	<b>2</b>	<b>2</b>	<b>3</b>	<b>3</b>
<b>Effaith ar gostau cludiant</b>	<b>3</b>	<b>3</b>	<b>3</b>	<b>3</b>
<b>Llwybrau diogel yn y gymuned</b>	<b>3</b>	<b>2</b>	<b>3</b>	<b>3</b>
<b>Sgôr Cyfartaledd</b>	<b>3</b>	<b>2</b>	<b>3</b>	<b>3</b>

## 4. Casgliadau ac Argymhellion

Ar sail yr Aseiad Effaith Cludiant cyffredinol, y canfyddiadau yw bod Dewis1a2a (safle Albini House) a Dewisiadau 3 a 4 yr un mor ddichonadwy, heb unrhyw rwystrau arwyddocaol mewn perthynas ag amser teithio, cost neu llwybrau diogel yn y gymuned. Mae Dewis 1a2b (safle Esgyrn) yn golygu effaith negyddol mewn perthynas ag amser 'cerdded' a llwybrau diogel.

O ran amser teithio, byddai'r effaith (amser gyrru) ar ddisgyblion yn ddibwys, gydag amrywiad o ddim mwy na 2 funud ar draws y dewisiadau. Gan ystyried y gallai disgyblion sy'n mynychu Ysgol Maelgwn yn bresennol gerdded i'r ysgol, mae'n rhesymol disgwyl pe byddai'r ysgol yn symud i safle Esgyrn y gallai'r amser cerdded gynyddu oddeutu 20 munud un ffordd (Victoria Drive i Esgyrn), gan olygu disgyblion yn croesi pum ffordd brysur. Mae'r effaith hwn yn sylweddol llai i safle Albini House gyda chynnydd o lai na phum munud a dwy ffordd brysur i'w croesi. Fodd bynnag, mae dros 60 o ddisgyblion yn mynychu Ysgol Maelgwn yn bresennol o ddalgylch Nant y Coed ac felly byddai'r disgyblion hyn yn agosach i'r ysgol.

Pan gyfunwn y ddau ddalgylch ysgol i greu ysgol newydd (Dewisiadau 1 a 2), nid yw'r pellter o'r man pellaf i unrhyw un o'r safleoedd newydd arfaethedig yn fwy na 2 filltir. Gan gymryd hyn i ystyriaeth, rhagwelir *na fydd* unrhyw gostau cludiant ychwanegol i'w hystyried os symudwn safle'r ysgol.

Nid oes unrhyw broblemau mewn perthynas â llwybrau diogel yn y gymuned yn y safleoedd ysgol sy'n bodoli a safle Albini House. Gan fod safle Esgyrn ar gyrion canol y dref, mae camau i sicrhau llwybrau diogel wedi eu cynnwys yng nghostau'r prosiect.

## Asesiadau Effaith Cludiant CMYC

(ar gyfer pob dewis o fewn ardal)

### Amlinelliad ar gyfer pob asesiad:

Bydd angen ystyried y canlynol ar gyfer pob dewis mewn ardal – nodir hyn yn y cyfarwyddiadau isod.

Ardal	Ysgolion	Band Ymgynghori	Dewis sy'n cael ei arwain gan y gyrwyr (1)	Dewis a ddymunir gan yr ardaloedd (2)	Dewisiadau eraill	
					Dewis (3)	Dewis (4)
<b>Ardal Caerhun</b>	Dolgarrog Tal y Bont Rowen Trefriw	A	Ysgol ardal newydd ar 1 safle (Dolgarrog).	Cadw'r ysgolion presennol	Ysgol ardal ar un safle trwy ailfodelu Ysgol Dolgarrog	Ysgol ardal ar y 4 safle sy'n bodoli.

Sylwer –

- *Nid yw'r asesiad yn cynnwys yr effaith ar drosiant trwy greu ysgol ardal ar amryw o safleoedd, gan mai'r corff llywodraethol fyddai'n penderfynu ar drefniant ar draws y safleoedd.*
- *Nid yw'r asesiad yn cynnwys yr effaith yn ddisgyblion ADY yn cael cludiant, gan fod meini prawf yr asesiad yn seiliedig ar anghenion ychwanegol y disgybl yn hytrach na'r pellter i'r ysgol.*
- *Byddai'r gwaith canlynol yn cael ei wneud gan Wasanaeth Rheoli Safle'r Gwasanaeth Addysg oni bai y nodir yn wahanol.*

### 1. Effaith ar Amseroedd Teithio

Ni fydd amser teithio i blant oedran cynradd yn fwy na 45 munud un ffordd. Cyfeiria hyn at 'amser gyrru' ac nid cerdded neu feicio.

Yn seiliedig ar y diffiniadau uchod, byddai'r tasgau canlynol yn cael eu dilyn.

#### Cadw'r ysgolion presennol / ysgol ardal ar y safleoedd sy'n bodoli - ar gyfer pob ysgol yn yr ysgol:

- Gan ddefnyddio'r system GIS MapInfo, canfyddwch y man pellaf (cod post) o'r dalgylch sy'n bodoli i'r ysgol sy'n bodoli.
- Ar y system Capita ONE 'TEST', dewch o hyd i ddisgybl sydd â'r un cod post a'r man pellaf (*os nad oes un ar y system, crëwch ddisgybl dros dro*), a chyfrifwch bellter ac amser teithio y llwybr byrraf a mwyaf diogel i'r safle ysgol sy'n bodoli.
- Ail adrodd ar gyfer pob ysgol bresennol/safleoedd sy'n bodoli.
- Cofnodwch y data (fel delwedd weledol) ar argraffiad GIS MapInfo ar gyfer dalgylch pob ysgol.

#### Ysgol ardal ar un safle trwy ailfodelu safle sy'n bodoli / ysgol ardal newydd ar safle sy'n bodoli:

- Gan ddefnyddio'r system GIS MapInfo, ail sefydlwch ddalgylch newydd sy'n cyfuno dalgylchoedd y safle ysgol sy'n bodoli (*bydd angen i chi gael cadarnhad o'r dalgylch newydd newydd gan Bennaeth Gwasanaethau Gwella Ysgolion*).
- Canfyddwch y man pellaf (cod post) o'r dalgylch diwygiedig i'r safle ysgol.

- Ar y system Capita ONE 'TEST', canfyddwch ddisgybl sydd â'r un cod post a'r man pellaf (*os nad oes un ar y system, creu disgybl dros dro*), a chyfrifo'r pellter ac amser teithio'r llwybr byrraf a mwyaf diogel i'r safle ysgol sy'n bodoli.
- Cofnodwch y data (fel delwedd weledol) ar yr argraffiad GIS MapInfo ar gyfer y dalgylch diwygiedig.

#### **Ysgol ardal newydd ar safle newydd:**

- Gan ddefnyddio'r system GIS MapInfo, ail sefydlwch ddalgylch newydd sy'n cyfuno'r dalgylchoedd safle ysgol sy'n bodoli (*bydd angen i Bennaeth Gwasanaethau Gwella Ysgolion gadarnhau'r dalgylch newydd hwn*).
- Nodwch y safleoedd newydd posib (*gydag EDS*).
- Nodwch y manau pellaf (cod post) o'r dalgylch diwygiedig i'r safle ysgol newydd posib.
- Ar y system Capita ONE 'TEST', canfyddwch ddisgybl sydd â'r un cod post a'r man pellaf (*os nad oes un ar y system, creu disgybl dros dro*), a chyfrifo'r pellter ac amser teithio'r llwybr byrraf a mwyaf diogel i'r safle ysgol newydd posib.
- Ail adrodd ar gyfer pob safle ysgol newydd posib.
- Cofnodwch y data (fel delwedd weledol) ar yr argraffiad GIS MapInfo ar gyfer y dalgylch diwygiedig.

## **2. Effaith ar Nifer y Disgyblion sy'n cael cludiant a chostau**

Yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd pob disgybl sy'n mynychu ysgolion o fewn ardal yn bresennol yn mynychu'r ysgol newydd, ac eithrio disgyblion sy'n cael cludiant oherwydd angen dysgu ychwanegol.

Bydd yr ymarfer hwn yn darparu cymhariaeth o niferoedd a chost; y sefyllfa bresennol o gymharu â newidiadau strwythurol.

### **2.1 Cadw ysgolion presennol / ysgol ardal ar safleoedd sy'n bodoli – ar gyfer pob ysgol yn yr ardal:**

- Ar gyfer pob ysgol, defnyddiwch y system Capita ONE i ganfod nifer y disgyblion sy'n cael cludiant am ddim ar hyn o bryd.
- Tynnwch y rhai sy'n cael ar gyfer angen dysgu ychwanegol.
- Canfyddwch y gost fesul ysgol (*Priffyrdd ac Isadeiledd*)
- Cofnodwch yr wybodaeth ar y templed a ddarparwyd.

Wrth ddefnyddio'r dull hwn (yn arbennig gyda'r ardaloedd trefol), yn gyntaf:

- Cymerwch y dalgylch newydd (a gymeradwywyd yn ymarfer 1) a gosod y disgyblion yn ôl eu codau post.
- Canfyddwch y manau pellaf (codau post) o'r dalgylch diwygiedig i'r safle ysgol presennol.
- Ar y system Capita ONE 'TEST', canfyddwch ddisgybl sydd â'r un cod post a'r man pellaf (*os nad oes un ar y system, creu disgybl dros dro*), a chyfrifo'r pellter i'r ysgol bresennol ac i unrhyw senario posib o safleoedd ysgol.
- Os nad yw'r disgybl hwn dros ddwy filltir, yna gallwn nodi nad oes unrhyw newid i'r trefniadau 'cadw'r ysgol bresennol' ac mae'r asesiad yn stopio yma.
- Os yw dros 2 filltir parhewch â'r asesiad isod:

### **2.2 Ysgol Ardal ar un Safle trwy ailfodelu safle sy'n bodoli / Ysgol Ardal newydd ar safle sy'n bodoli:**

- O'r systemau ysgol SIMS.net, argraffwch restr o'r codau post i bob disgybl sy'n mynychu pob ysgol yn yr ardal i'w hadolygu (ac eithrio'r disgyblion hynny



sy'n cael cludiant ar gyfer ADY). Mewnfudo i Excel a didoli i 'guddio' codau post dyblyg (*Rheolwr Prosiect / MIS*).

- Ar y system Capita ONE 'TEST', canfyddwch ddisgyblion sydd â'r un codau post a'r daenlen excel (*os nad oes disgyblion yn y system, crëwch ddisgyblion dros dro*), a chyfrifo'r pellteroedd i'r safle ysgol sy'n bodoli.
- Datgelwch y codau post dyblyg a thicio os yw dros 2 filltir – gan bennu nifer y disgyblion sydd o bosib yn gymwys.
- Canfyddwch y gost o gludo'r disgyblion a nodwyd fel cymwys uchod (*Priffyrdd ac Isadeiledd*)
- Cofnodwch yr wybodaeth ar y templed a ddarparwyd.

### **2.3 Ysgol Ardal Newydd ar Safle Newydd:**

*Gan ddefnyddio'r daenlen excel o godau post disgyblion a grëwyd uchod – ychwanegwch golofn arall i gofnodi canlyniad yr effaith gyda'r newid strwythurol hwn.*

- Nodwch y safleoedd newydd posib (*gydag EDS*).
- Ar y system Capita ONE 'TEST', canfyddwch y disgyblion sydd â'r un codau post a'r daenlen excel (*dylai'r holl godau post fod yn y system brofi erbyn hyn*), a chyfrifo'r pellteroedd i'r safle ysgol newydd.– gan bennu nifer y disgyblion sydd o bosib yn gymwys - ail adrodd ar gyfer pob safle ysgol newydd posib.
- Canfyddwch y gost o gludo'r disgyblion sy'n gymwys (*Priffyrdd ac Isadeiledd*)
- Cofnodwch yr wybodaeth yn y templed a ddarparwyd.

### **Gwaith i'w wneud gan y Gwasanaeth Priffyrdd ac Isadeiledd**

*(mewn perthynas â 2.2 a 2.3)*

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae'n ofynnol cael elfen costio gan y Gwasanaeth Priffyrdd ac Isadeiledd. Ble cyfeirir at hyn, bydd yn golygu:

- Ystyried y clystyrau ar gyfer unrhyw ddisgyblion newydd sydd angen cludiant ac ar gyfer pob clwstwr;
  - Ystyried pa gerbyd a llwybr sydd fwyaf priodol;
  - Cofnodi'r llwybr;
  - cyfrifo'r gost fesul clwstwr;
- adio'r costau clwstwr gyda'i gilydd i adrodd yn ôl y dewis (e.e. 2.3)